



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

RHAGLEN DYSGU A DATBLYGU GYDOL OES CYSWLLT FFERMIO

RHESTR O'R CYRSIAU SYDD AR GAEL, WEDI'U HARIANNU HYD
AT 80%, YNGHYD Â HYD POB CWRS AC AMLINELLIAD O'R
CYNNEWYS.

(Noder mai **canllaw yn unig** yw'r cynnwys. Os oes angen eglurhad pellach arnoch **bydd**
angen i chi gysylltu â'r darparwr hyfforddiant Cyswllt Ffermio a ddewiswyd gennych)



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwella Busnes (Cymorthdal o 80%)

Categori	Teitl a disgrifiad y cwrs	Hyd y cwrs (yn fras mewn diwrnodau)
Gwella Busnes (Cymorthdal o 80%)	Arwain a Rheoli	
	Diben y cwrs hwn yw galluogi'r dysgwyr i ddeall a defnyddio arddulliau arwain gwahanol a dulliau rheoli gwahanol sy'n effeithio ar sut mae busnesau, timau ac unigolion yn perfformio. Bydd yn ymdrin â'r gwahaniaeth rhwng 'arwain' a 'rheoli', arddulliau arwain gwahanol a'r effaith bosibl ar bobl yn ogystal â'r galluedd rheoli allweddol y mae eu hangen er mwyn arwain, datblygu a chefnogi pobl yn effeithiol yn eu rolau. Mae'r cwrs wedi'i ddatblygu ar gyfer pobl sydd wrthi'n rheoli ac yn datblygu staff.	I
	Cadw llyfrau, TAW a 'Gwneud Treth yn Ddigidol' (MTD)	
	Mae'n bwysig deall bod cofnodi a dadansoddi trafodion ariannol yn rhan hanfodol o reoli arian ac atebolrwydd ariannol. Bydd rheolaeth ariannol dda yn ei gwneud yn bosibl ichi fonitro sefyllfa ariannol eich busnes, ac yn sicrhau eich bod yn gallu cynllunio'n ariannol, monitro'ch incwm o'i gymharu â'ch gwariant, a sicrhau bod y manylion perthnasol ar gael pan fydd eu hangen i lenwi'ch ffurflen TAW.	I
	Cael y gorau o'ch pobl	
	Pobl sy'n ymwneud â'r cwsmer, yn gwneud y cynnyrch, yn darparu'r gwasanaeth, yn cynllunio ac yn cydlynu sut mae gwaith yn cael ei wneud, yn gwella prosesau a systemau, yn sicrhau safonau ansawdd, ac yn gwneud elw. Y bobl sy'n gwneud gwaith sefydliad ac sydd yn y pen draw yn gyfrifol am ei lwyddiant. Diben y cwrs hwn yw cael y gorau allan o bobl sy'n gweithio i chi ac mae'n ddefnyddiol os ydych yn newydd i fyd cyflogi staff neu os ydych yn teimlo bod eich pobl yn anghynhyrchiol neu heb fod yn cael eu defnyddio i'r eithaf.	I
	Cyflwyniad i gynllunio busnes amaethyddol	
	Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â maint elw gros mentrau, a chyllidebu yn y bôn. Mae'n edrych ar bethau sy'n effeithio ar elw gros, a sut i'w lliniaru. Mae hefyd yn ymdrin â chyllidebu at y dyfodol, fel sy'n angenrheidiol wrth baratoi cynllun busnes.	I
	Cynllunio a datblygu busnes	
	Er mwyn i unrhyw fusnes fyw'n hir, mae'n bwysig ei fod yn aros yn broffidiol ac yn parhau i ddarparu rhywbeth o werth i'w gwsmeriaid, gan sicrhau bod yr incwm yn fwy na'r costau. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, mae Rheolaeth Fusnes yn allweddol gan ei bod yn cynnwys yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â rhedeg eich busnes, megis rheoli, monitro, cynllunio a threfnu, a bydd cyflawni'r tasgau hyn yn llwyddiannus yn sicrhau eich bod yn llwyr ymwybodol o sefyllfa'ch busnes yn y farchnad, gan ddeall anghenion eich cwsmeriaid yn ei dro. Mae'r cwrs hwn yn addas i chi os ydych chi wrthi'n rhedeg a rheoli eich busnes eich hun, ac felly yn gwneud y penderfyniadau strategol a gweithredol. Bydd yn eich helpu i adolygu pa mor dda yw sefyllfa bresennol eich busnes, ac yn edrych ar unrhyw effeithiau posibl, a sut mae mynd i'r afael â'r rhain.	I

Gwella Busnes (Cymorthdal o 80%)	Cynllunio arallgyfeirio neu fenter newydd ar y fferm	
	Mae'r cwrs hwn yn ystyried pa mor ymarferol yw gwahanol fentrau, ac effaith arallgyfeirio ar y mentrau sy'n bodoli eisoes. Mae'n edrych ar ymchwil i'r farchnad, a chyllidebu sylfaenol. Mae hefyd yn ymdrin â chynllunio'r prosiect, ei roi ar waith a'r materion y gall hynny eu creu. Ymdrinnir â ffynonellau gwybodaeth a chyfeirio at y rhain.	I
	Cynllunio eich busnes ar gyfer y dyfodol	
	Diben yr hyfforddiant hwn yw helpu'r dysgwyr i ddatblygu cynllun hirdymor ar gyfer eu busnes a hynny ar sail dadansoddiad o'r perfformiad presennol a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol. Bydd y cwrs yn mynd â'r dysgwyr drwy'r daith cynllunio busnes, o adnabod llwyddiannau a gwersi sydd wedi'u dysgu drwy ddefnyddio modelau cyffredin, i nodi adnoddau i gefnogi'r cynllun a pharatoi cynllun busnes. Mae'r hyfforddiant wedi'i anelu at berchnogion a rheolwyr mentrau bach a chanolig, yn ogystal â busnesau newydd neu gall gael ei deilwra at raglen fewnol sy'n addas ar gyfer y tîm rheoli.	I
	Datblygu pobl i berfformio	
	Mae sicrhau bod gan y busnes bobl sydd â'r profiad a'r arbenigedd iawn, ar bob lefel o'r rhai ar y brig i'r aelod staff diweddaraf, yn sgil hanfodol ac yn ganolog o ran sicrhau llwyddiant nawr ac yn y dyfodol. Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i fwriadu i alluogi'r rhai sy'n ei ddilyn i ystyried y ffordd orau i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad y bobl y maen nhw'n gweithio gyda nhw i'w helpu i berfformio mor effeithiol â phosibl.	I
	Deall eich Cyfrifon a'ch Datganiadau Ariannol	
	Mae rheolaeth ariannol yn eithriadol o bwysig mewn busnes. Mae'r cwrs hwn yn addas i unrhyw un sy'n dymuno gwella'i sgiliau a'i wybodaeth am y pwnc er mwyn bod yn fwy effeithiol yn y gwaith. Bydd yn cynnwys sut i fonitro perfformiad eich busnes, incwm o'i gymharu â gwariant, cyfrifon diwedd blwyddyn a sut i weithio'n fwy effeithiol gyda'ch cyfrifydd.	I
	Gweithdai Gofalu am eich Busnes (IAgSA) 1	
	Dyma'r cyntaf mewn cyfres o 2 weithdy, a bydd yn galluogi mynychwyr i ddiweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o'u systemau cadw llyfrau ar y fferm. Bydd hefyd yn rhoi cyfle iddynt adolygu eu systemau presennol er mwyn paratoi ar gyfer gofynion rheoliadol at y dyfodol. Ar ddiwedd y sesiwn, bydd mynychwyr yn gallu: asesu cywirdeb ac addasrwydd eu systemau presennol ar gyfer cadw llyfrau'r fferm; adolygu eu systemau presennol er mwyn diogelu dyfodol eu busnes o ran gwneud penderfyniadau busnes; adnabod a defnyddio data'r fferm i lunio elw gros y fenter a dadansoddiad ar gyfer y fferm gyfan.	I
	Gweithdai Gofalu am eich Busnes (IAgSA) 2	
	Dyma'r ail mewn cyfres o ddau weithdy, a bydd yn galluogi mynychwyr i adnabod a defnyddio data'r fferm i lunio mesuriadau effeithlonrwydd a pherfformiad. Bydd hefyd yn eu galluogi i baratoi a chreu adroddiadau llif arian parod a chyllidebau. Erbyn diwedd y sesiwn, bydd mynychwyr yn gallu: deall Cyfrifon Diwedd Blwyddyn; adnabod Blwyddyn Cnydau v Blwyddyn Ariannol; llunio elw Gros a Net ac adnabod Costau Cynhyrchu; creu adroddiadau Llif Arian Parod a Chyllidebau.	I

lechyd a Diogelwch Amaethyddol - Paratoi ar gyfer Archwiliad	
Mae hwn yn gwrs undydd achrededig i helpu pobl i ddeall yr hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer archwiliad fferm gan Yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch.	I
Marchnata eich busnes	
Mae marchnata'n bwysig i unrhyw fusnes. Mae'n eich helpu i ddeall a diwallu anghenion eich cwsmeriaid, ac yn ei dro ddod o hyd i ffyrdd i ddarparu'r cynhyrchion neu'r gwasanaethau y mae'r cwsmer yn gofyn amdany'n nhw. Mae'r cwrs hwn yn fuddiol i chi os hoffech chi wella'ch sgiliau a'ch gwybodaeth am y pwnc, ac os ydych yn ffermwr neu'n dyfwr neu unrhyw fusnes gwledig arall sy'n ystyried arallgyfeirio o'ch busnes presennol. Bydd ein cwrs yn eich helpu i ddeall marchnata a sut i ganfod anghenion eich cwsmeriaid ac yn edrych ar y cymysgedd marchnata cyffredinol, gan wneud eich busnes yn fwy effeithiol o lawer.	I
Rheoli Prosiectau	
Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i fwriadu ar gyfer y rhai sy'n awyddus i ddatblygu eu gwybodaeth o reoli prosiectau'n dda ar lefel weithredol sylfaenol. Mae'n ymdrin â methodolegau mwy cymhleth ond yn defnyddio egwyddorion sylfaenol sydd i'w cael ym mhob model heb orfodi aelodau'r cwrs i'w mabwysiadu. Bydd yn ymdrin hefyd ag adnabod adnoddau, dadansoddi risg, rolau a chyfrifoldebau yn nhîm y prosiect, Dadansoddi Llwybrau Critigol a siartiau Gantt yn ogystal ag adolygu'r prosiect a chofnodi'r gwersi a ddysgwyd.	I
Rheoli Risg	
Bydd y cwrs yn amlinellu sut y gellir adnabod a rheoli risg ac ansicrwydd mewn busnesau amaethyddol. Cymharu gwahanol ddulliau a ddefnyddir i ddadansoddi risg ac ansicrwydd mewn busnes. Gwerthuso'r risg posibl yn ymwneud â phenderfyniadau busnes penodol.	I
Rheoli Straen	
Cwrs Rheoli Straen. Cyfle i ddysgu technegau er mwyn rheoli straen yn effeithiol yn y gweithle, er mwyn gwella cynhyrchiant a llesiant personol. Cwrs hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer rheoli straen, gan gynnig datrysiadau ymarferol i leihau a rheoli straen yn y gweithle.	I
Rheoli timau achlysurol a thymhorol	
Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i ddatblygu ar gyfer pobl sy'n gyfrifol am arwain a rheoli timau tymhorol ac achlysurol. Efallai mai ar adegau penodol o'r flwyddyn yn unig y bydd aelodau'r cwrs o dan y cyfrifoldeb hwn ac o bosibl yn gyfrifol am gyfnod byr o amser yn unig gan ddibynnu ar y dasg tymhorol sy'n cael ei chyflawni. Mae'r hyfforddiant yn addas i'r rhai yn y diwydiannau amgylcheddol a diwydiannau'r tir yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio ar ymylon y diwydiannau hyn neu y tu allan iddyn nhw.	I

Gwella Busnes (Cymorthdal o 80%)	Sicrhau cysondeb eich Llif Arian Parod	
	Mae llif arian yn rhan bwysig o reolaeth ariannol eich busnesau, ac mae'n creu amgylchedd busnes mwy effeithiol. Mae ar bob busnes angen arian parod i oroesi, ac os oes gennych arian yn mynd allan o'r busnes yn gyflymach nag y mae'n dod i mewn, yna fe welwch eich hun mewn sefyllfa lle rydych yn methu talu staff neu gyflenwyr. Dyma lle gall busnes syrthio i anawsterau mawr, ac felly mae deall eich llif arian a gallu ei reoli yn ffactor pwysig iawn wrth redeg busnes. Mae'r cwrs hwn yn addas i chi os hoffech chi wella'ch sgiliau a'ch gwybodaeth am y pwnc.	I

Technegol (Cymorthdal o 80%)

Categori	Teitl a disgrifiad y cwrs	Hyd y cwrs (yn fras mewn diwrnodau)
Technegol (Cymorthdal o 80%)	Ansawdd Pridd (BASIS)	
	Deilliannau'r dysgwr: Deall pynciau yn ymwneud â phridd a chreu deunydd organig, nodweddion a swyddogaethau, gan ganolbwyntio ar ansawdd a chynaliadwyedd priddoedd. Gwerthuso ffactorau sy'n pennu nodweddion ffisegol y pridd, gan gynnwys gwead a strwythur, a'u heffaith ar y risg o erydiad, symudiad, dargadwedd ac argaeledd dŵr. Archwilio prosesau cemegol y pridd, yn enwedig y rhai hynny sy'n gysylltiedig â symud a chyfnewid maetholion a gwerthuso sut y gallant effeithio ar ffrwythlondeb, cynhyrchiant ac iechyd y pridd. Gwerthuso'r amrywiaeth o ffawna sy'n bresennol yn y pridd a gwerthuso eu rôl yn y pridd, gan dalu sylw penodol i gylchred maeth a deunydd organig.	1
	Cneifio Defaid gyda Pheiriant	
	Bydd y cwrs hwn ar gneifio â pheiriant yn roi'r wybodaeth ichi i allu sefydlu, cynnal, iro ac addasu offer cneifio er mwyn gweithio'n ddiogel ac yn briodol, yn unol â llawlyfr y gweithgynhyrchydd; trafod defaid gyda sylw dyledus i les anifeiliaid a diogelwch personol; cneifio defaid mewn modd cymwys heb gymorth; y safonau ansawdd a'r safonau meintiol sy'n ofynnol o dan gynllun ardystio'r BWMB; cyflwyno'r gwlân i'w werthu, a deall pwysigrwydd ffactorau sy'n effeithio ar ei werth.	2
	Codi a chario	
	Nod y cwrs yw rhoi'r wybodaeth ymarferol y mae arnoch ei hangen er mwyn deall y risgiau sy'n gysylltiedig â chodi a chario pethau, gan ofalu eich bod yn ymwybodol o sut i godi pethau'n gywir er mwyn lleihau'r risg.	1
	Cwrs Asesu a Gwella Rheolaeth o'r Borfa - mesur gan ddefnyddio mesurydd plât ayb.	
	Creu cynllun samplu er mwyn dadansoddi pridd. Casglu samplau o'r borfa i'w dadansoddi. Asesu samplau pridd o'r tir glas ar gyfer lefelau a) pH a b) ffosffad a photash. Mesur cynnyrch glaswellt. Asesu'r uchder pori gorau a'r dyddiadau mwyaf addas ar gyfer torri er mwyn sicrhau'r cymeriant a'r cynnydd pwysau byw neu gynnyrch llaeth gorau posibl. Disgrifio'r gwahanol rywogaethau glaswellt sy'n addas ar gyfer pori a/neu gynhyrchu silwair. Dewis gwahanol fathau o laswellt i'w tyfu er mwyn cynyddu gwerth maethol a lleihau'r effaith amgylcheddol. Disgrifio ffyrdd o wella cynhyrchiant y borfa. Nodi effaith diffyg ffrwythlondeb pridd ar gynhyrchiant tir glas. Rhoi'r lefelau pH gorau ar gyfer tir glas a sut y gellir addasu lefelau pH. Rhoi'r lefelau ffosffad a photash gorau a sut y gellir rheoli'r lefelau hyn.	1
	Cwrs Cneifio Defaid ar Lefel Uwch	
	Ar gael i ymgeiswyr sydd wedi cwblhau cwrs ar gneifio â pheiriant drwy gyfrwng Rhaglen Cyswllt Ffermio ac sydd erbyn hyn yn dymuno dilyn cwrs uwch i wella ac adeiladu ar y sgiliau sydd ganddyn nhw eisoes.	2

Cwrs Meistroli Meddyginiaethau	
Bydd y cwrs hwn yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i roi meddyginiaethau milfeddygol yn ddiogel i anifeiliaid, storio, cynnal a chofnodi meddyginiaethau ar y fferm yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r gofynion ynghylch sicrwydd fferm a disgrifio'r gwahaniaeth rhwng brechlynnau a thriniaethau a'r gwahanol ddosbarthiadau o dan y ddeddfwriaeth.	1
Cyflwyniad i reolaeth llyngyr a chyfrif wyau mewn carthion i gynhyrchwyr defaid	
Mae'r cwrs hwn yn trafod hanfodion rheoli llyngyr mewn defaid ac yn rhoi cyflwyniad ynglŷn â'r pynciau canlynol ar gyfer cynhyrchwyr defaid: Deall cylchred bywyd llyngyr a sut mae hyn yn effeithio ar opsiynau rheoli. Y sefyllfa bresennol o ran ymwrthedd i driniaeth llyngyr yng Nghymru a strategaethau ar gyfer lleihau'r risg o ymwrthedd, gan gynnwys opsiynau eraill yn hytrach na thriniaeth llyngyr i reoli parasitiaid. Bydd y cwrs hefyd yn trafod defnyddio cyfrif wyau ysgarthol fel adnodd i gynorthwyo i reoli llyngyr, yn ogystal â'r pynciau canlynol: Yr hyn y gall cyfrif wyau ysgarthol ei ddangos i ni o ran heintiadau llyngyr, a beth na allant ei ddangos. Defnyddio ffigyrau cyfrif wyau ysgarthol ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Trosolwg bras o sut i gyfrif wyau ysgarthol, ynghyd ag opsiynau profi.	1
Cymhwyster Sylfaenol BASIS mewn Agronomeg (Amaethyddiaeth)	
Mae'r cwrs hwn yn gyflwyniad delfrydol i agronomeg, dulliau integredig o ddiogelu cnydau a maeth y prif gnydau gwraidd a chnydau combeinio yn y DU. I rai mynychwyr sydd â phrinder profiad a dealltwriaeth o gnydau, bydd y cwrs yn rhagarweiniad ar gyfer y Cwrs Tystysgrif BASIS mewn Diogelu Cnydau. Ar gyfer pobl eraill megis staff y fferm lle nad yw eu rôl yn golygu rhoi cyngor ar agronomeg a diogelu cnydau, mae'n gwrs unigol sy'n darparu lefel o ddealltwriaeth a gwybodaeth sy'n addas ar gyfer eu gwaith.	1
Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith	
Mae'r hyfforddiant Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith yn darparu gwybodaeth hanfodol er mwyn sicrhau amgylchedd gweithio diogel. Mae'r cwrs yn para un diwrnod.	1
Cymorth Cyntaf yn y Gwaith	
Mae'r dystysgrif Cymorth Cyntaf yn y Gwaith yn ddilys am dair blynedd. Bydd y cwrs yn darparu gwybodaeth a hyfforddiant ymarferol a fydd yn sicrhau bod swyddogion cymorth cyntaf yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'u sgiliau mewn sefyllfaoedd go iawn.	3
Cynnal a Gwella Iechyd y Pridd (BASIS)	
Ymglyfarwyddo ag arferion amaethyddol sy'n cynnal ac yn gwella pridd, trin cyn lleied â phosibl, cywasgiad pridd, cnydau gorchudd, compostio, cylchdroi cnydau, gwrteithiau gwyrdd, draeniad, gwrtaith a chynnyrch diogelu planhigion a'u heffaith ar fioleg y pridd ayb. Sut i brofi priddoedd a dehongli canlyniadau.	1

Defnyddio a Gwasgaru Slyri'n Ddiogel	
Galluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau wrth ddefnyddio a gwasgaru slyri a thail buarth mewn modd diogel. Mae hwn yn gwrs lle hyfforddiant ac asesiad yn gwbl integredig. Bydd Tystysgrif Cymhwysedd yn cael ei chyflwyno ar ôl cwblhau'r cwrs. Deall manteision Cynlluniau Rheoli Maetholion a Mapiau Risg. Peidio â defnyddio a rheoli slyri a thail yn briodol. Deddfwriaeth ac arweiniad yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd a systemau dŵr. Effaith slyri a thail ar yr amgylchedd, a sut y gellir goresgyn yr effeithiau hyn. Storio a chludo'n ddiogel. Iechyd a diogelwch ac ymdrin â damweiniau. Peiriannau gwasgaru. Lleihau allyriadau ammonia yn ystod y broses o wasgaru. Gweithio o fewn Parthau Perygl Nitradau neu ger cyrsiau dŵr. Rheolau Ffermio Newydd ar gyfer Dŵr. Cadw cofnodion.	1
Defnyddio Alwminiwm Ffosffid yn Ddiogel i Reoli Fertebrataid	
Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i anelu at unrhyw un sy'n dymuno rheoli fertebratau drwy ddefnyddio alwminiwm ffosffid. Bydd y cwrs yn sicrhau bod defnyddwyr y cynnyrch hwn wedi'u hyfforddi'n ddigonol. Mae alwminiwm ffosffid yn gyfansoddyn peryglus ac o'i ddefnyddio'n anghywir gall fod yn beryglus i iechyd a diogelwch y defnyddiwr.	1 + asesiad dewisol
Defnyddio Dip Defaid yn Ddiogel	
Er mwyn prynu a defnyddio cemegau dip defaid rhaid ichi fod wedi cwblhau'r hyfforddiant i ddangos eich lefel cymhwysedd.	1 + asesiad dewisol
Defnyddio eich Drôn ar y Fferm	
Diwrnod Cyntaf: Awgrymiadau diogelwch sylfaenol defnyddio drôn a'r arferion gorau er mwyn eich cadw chi a'ch drôn mewn un darn. Mapio: Gall hedfan drôn awtomatig ddarparu map o ansawdd uchel o ardal benodol sy'n dangos llawer mwy o fanylder na llun unigol. Dadansoddi: Prosesu, dadansoddi ac allforio'r lluniau a dynwyd er mwyn gwneud penderfyniadau ac anfon y canlyniadau i ble bynnag fo angen. Ail Ddiwrnod: Mae hyd yr offer mesur, ardal ac uchder yn agor nifer o ddrysau lle byddai data drôn yn gallu bod yn werthfawr ar y fferm. Enghreifftiau defnyddio technoleg drôn gan gynnwys hawliadau yswiriant, ceisiadau a rheoli llifogydd. Monitro Da Byw. Defnyddio systemau drôn er mwyn gofalu am dda byw mewn modd mwy effeithlon.	2
Defnyddio'r Milfeddyg a Meddyginiaethu'n Ddiogel	
Mae'r cwrs yn cynnwys sut i roi meddyginiaeth yn ddiogel i anifeiliaid fferm, lles anifeiliaid a phwysigrwydd cadw cofnodion cywir.	1
DIY Ffrwythloni Artiffisial (AI)	
Mae'r cwrs yn ymdrin â'r system atgenhedlu, sut i wybod bod buwch yn gofyn tarw, ffrwythlondeb a sut i ffrwythloni buchod yn artiffisial yn llwyddiannus.	3
Dyfarniad Diogelwch Bwyd Lefel 3 ar gyfer y diwydiant Arlwyo	
Bydd pynciau'n cynnwys cydymffurfio gyda deddfwriaeth diogelwch bwyd, defnyddio a monitro arferion hylendid da, sut i weithredu gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd a defnyddio a monitro arfer dda o ran rheoli halogiad, microbiolog a rheolaeth tymheredd.	3

Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd i'r diwydiant Arlwyo, Gweithgynhyrchu neu Fanwerthu	
Cwrs hyfforddiant undydd achrededig. Deall terminoleg hylendid bwyd cyffredin. Deall effaith clefydau sy'n deillio o fwyd. Gwybod am gyfraith a deddfwriaeth bwyd. Gwybod sut i atal a rheoli halogiad. Deall egwyddorion storio a chadw bwyd. Deall pwysigrwydd hylendid personol. Deall sut i gadw eiddo ac offer yn lân. Deall egwyddorion HACCP.	1
Dyfarniad Lefel 2 mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle	
Mae'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle yn rhoi i'r dysgwyr yr wybodaeth sylfaenol i'w cadw nhw eu hunain a'r rhai sydd o'u cwmipas yn ddiogel mewn amgylchedd gwaith. Mae'n ymdrin â sgiliau pwysig fel defnyddio offer amddiffynnol, delio â damweiniau a rheoli risgiau.	1
Dyfarniad Lefel 3 mewn Diogelwch Bwyd i'r diwydiant Arlwyo, Gweithgynhyrchu neu Fanwerthu	
Mae'r Dyfarniad Lefel 3 mewn Goruchwyllo Diogelwch Bwyd yn ddelfrydol ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio fel goruchwylwr, arweinydd tîm neu reolwr llinell yn y diwydiant arlwyo ac estyn croeso. Bydd y cwrs yn trafod microbioleg, peryglon a dulliau rheoli, gwenwyn bwyd, hylendid personol, eiddo ac offer, glanhau a diheintio, rheoli plâu, rheoli diogelwch bwyd, rheoli goruchwyliaeth, deddfwriaeth a gorfodaeth.	3
Dyfarniad Lefel 3 mewn Goruchwyllo Iechyd a Diogelwch	
Mae ar oruchwylwyr gyfrifoldeb cyfreithiol a moesol i ofalu am iechyd a diogelwch gweithwyr cyflogedig. Bydd y cymhwyster hwn yn fodd i reolwyr a goruchwylwyr wella diwylliant iechyd a diogelwch eu sefydliad, beth bynnag fo'i faint neu ei weithgaredd.	1
Gweithio'n Ddiogel mewn Amaethyddiaeth/Garddwriaeth	
Mae'r cwrs hyfforddi hwn yn addas i chi os ydych ar hyn o bryd yn gweithio yn y sector amaethyddiaeth neu arddwriaeth neu fod gennych ddealltwriaeth o'r sector ac yr hoffech ddilyn gyrfa ynddo. Bydd y cwrs yn eich helpu i ddatblygu'ch gwybodaeth o ofynion iechyd a diogelwch, ac yn caniatáu ichi ychwanegu at eich datblygiad proffesiynol parhaus.	1
Gwell systemau trin da byw er mwyn cynyddu elw	
Gan ganolbwyntio ar drafod gwartheg byddwch yn dysgu sut i ddatblygu systemau mwy diogel, mwy effeithlon a mwy proffidiol wrth weithio gyda'ch da byw. Byddwch yn treulio amser yn trafod yr anawsterau a'r ffactorau sy'n rhan o well dulliau trafod, gydag amser ar y fferm i edrych ar symud gwartheg, a systemau trafod gwartheg. Bydd y cwrs yn ystyried: Pam mae sgiliau da wrth drafod gwartheg yn bwysig. Y prif faterion a ffactorau sy'n arwain at ddamweiniau. Manteision sgiliau da wrth drafod gwartheg. Synhwyrâu anifeiliaid. Symud da byw yn effeithiol. Dylunio systemau trafod gwartheg.	1

Technegol (Cymorthdal o 80%)	Hylandid a Bioddiogelwch (Pasbort Dofednod) Lefel 2	
	Ar gyfer y gweithiwr fferm. Bydd y cwrs yn trafod y canlynol: Beth yw Bioddiogelwch? Yr offer sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal safonau bioddiogelwch; Sut i gael gafael ar yr offer angenrheidiol; Rhesymau dros weithdrefnau bioddiogelwch a hylandid y safle; Monitro ac archwilio gweithdrefnau bioddiogelwch; Gweithdrefnau ar gyfer storio a defnyddio cemegau yn ddiogel; Cyfraddau gwanhau cemegau a'u pwysigrwydd; Offer Diogelu Personol gofynnol; Gofynion hylandid personol a'r rhesymau drostynt; Gofynion cadw cofnodion; Adnabod deddfwriaeth y DU, codau ymddygiad a safonau cynlluniau sicrwydd; gofynion COSHH; Gwaredu cynnyrch neu hylifau wedi'u defnyddio; Mesurau penodol sy'n ofynnol er mwyn rheoli; Salmonela a Campylobacter; Adnabod afiechydon dofednod a mesurau rheoli penodol.	I
	Hylandid a Bioddiogelwch (Pasbort Dofednod) Lefel 3	
	Ar gyfer perchennog/rheolwr y fferm. Bydd y cwrs yn trafod y pynciau canlynol: Beth yw Bioddiogelwch? Yr offer sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal safonau bioddiogelwch; Sut i gael gadael ar yr offer angenrheidiol; Rhesymau dros weithdrefnau bioddiogelwch a hylandid y safle; Monitro ac archwilio gweithdrefnau bioddiogelwch; Gweithdrefnau ar gyfer storio a defnyddio cemegau yn ddiogel; Cyfraddau gwanhau cemegau a'u pwysigrwydd; Offer Diogelu Personol gofynnol; Gofynion hylandid personol a'r rhesymau drostynt; Gofynion cadw cofnodion; Adnabod deddfwriaeth y DU, codau ymddygiad a safonau cynlluniau sicrwydd; gofynion COSHH; Gwaredu cynnyrch neu hylifau wedi'u defnyddio; Mesurau penodol sy'n ofynnol er mwyn rheoli; Salmonela a Campylobacter; Adnabod afiechydon dofednod a mesurau rheoli penodol.	I
	Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn systemau da byw	
	Amlinellu sut mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael eu cynhyrchu mewn systemau da byw. Deall sut mae targedau Cymru a'r DU ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr at y dyfodol wedi cael eu gosod a sut y byddant yn cael eu cyflawni. Deall datrysiadau ymarferol a allai gyfrannu at leihau allyriadau mewn systemau ffermio da byw drwy reoli maetholion, defnydd tir, cynhyrchiant, geneteg, diet, iechyd anifeiliaid ayb.	I
	Lles Dofednod (Pasbort Dofednod) Lefel 2	
	Ar gyfer y gweithiwr fferm. Offer gofynnol er mwyn cynnal safonau lles yr adar; Gofynion deddfwriaethol, codau ymdarfer a safonau'r diwydiant; Amodau gwastraff a sut mae hyn yn effeithio ar y ddiadell; Llety a lloches; Ansawdd bwyd a dŵr; Gweithdrefnau mewn argyfwng; Amodau amgylcheddol gan gynnwys cyfraddau awyru; Gofynion cadw cofnodion; Gwaredu gwastraff a stoc marw; Y Pum Rhyddid; Gweithdrefnau ar gyfer trin dofednod yn addas; Adnabod ymddygiad normal ac annormal a'r rhesymau dros unrhyw newidiadau; Ffactorau sy'n achosi straen mewn dofednod; Adnabod adar sydd angen eu difa; Technegau difa sydd wedi'u cymeradwyo drwy ddeddfwriaeth.	I

Lles Dofednod (Pasbort Dofednod) Lefel 3		
Ar gyfer perchennog/rheolwr y fferm. Offer gofynnol er mwyn cynnal safonau lles yr adar; Gofynion deddfwriaethol, codau ymarfer a safonau'r diwydiant; Amodau gwastraff a sut mae hyn yn effeithio ar y ddiadell; Llety a lloches; Ansawdd bwyd a dŵr; Gweithdrefnau mewn argyfwng; Amodau amgylcheddol gan gynnwys cyfraddau awyru; Gofynion cadw cofnodion; Gwaredu gwastraff a stoc marw; Y Pum Rhyddid; Gweithdrefnau ar gyfer trin dofednod yn addas; Adnabod ymddygiad normal ac annormal a'r rhesymau dros unrhyw newidiadau; Ffactorau sy'n achosi straen mewn dofednod; Adnabod adar sydd angen eu difa; Technegau difa sydd wedi'u cymeradwyo gan ddeddfwriaeth.		1
Paratoi at Reoliadau'r IPPC (y Diwydiant Dofednod)		
Bwriad y cwrs hwn yw eich paratoi i sicrhau trwydded yr IPPC. Bydd y cwrs undydd yn eich arwain drwy ofynion yr IPPC fel eich bod yn gwybod yr effeithiau amgylcheddol posibl a pham mae'n bwysig cadw'r rhain mor fach â phosibl. Byddwch chi hefyd yn deall y gofynion allweddol a'r gofynion cyfreithiol, fel y gallwch wneud y gwelliannau angenrheidiol i wneud cais am drwydded IPPC. Arbed a monitro adnoddau. Lleihau a monitro gwastraff a llygredd. Cynlluniau safle. Arolygu a chynnal-a-chadw.		1
Pori er mwyn Cadwraeth		
Bydd y cwrs yn darparu cyflwyniad i bori eang/pori er mwyn cadwraeth a defnyddio da byw i gyrraedd amcanion amgylcheddol. Bydd y cwrs yn trafod pori a systemau pori, iechyd, lles ac ymddygiad anifeiliaid, y ddeddfwriaeth allweddol, rolau a chyfrifoldebau ffermwyr, iechyd a diogelwch ac asesiadau risg a sut i ddefnyddio technegau trin da byw yn effeithiol.		2
Rheolaeth Cyfrifol ac Effeithiol o Gnofilod Cydfwytaol		
Mae'r hyfforddiant hwn yn addas i unrhyw un sy'n dymuno rheoli cnofilod. Mae wedi'i fwriadu i helpu pobl i gynllunio a chyflawni rheolaeth llygod mawr a llygod. Mae'r cwrs hwn yn fwy perthnasol i bobl sydd wedi arallgyfeirio ar y fferm ac sydd â phobl yn ymweld â'r safle. Mae'r cwrs wedi'i gymeradwyo gan Weithgor Hyfforddi ac Ardystio'r Ymgyrch dros Ddefnyddio Gwenwyn Llygod yn Gyfrifol (CRRU).		1
Rheoli Cnofilod ar y Fferm		
Mae'r cwrs wedi'i gymeradwyo gan Weithgor Hyfforddi ac Ardystio'r Ymgyrch dros Ddefnyddio Gwenwyn Llygod yn Gyfrifol ac mae wedi'i gynllunio i helpu pobl i gynllunio a chyflawni rheolaeth llygod mawr a llygod ar safle amaethyddol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys theori a gweithgareddau ymarferol ac mae'n rhoi dealltwriaeth o pam mae angen rheoli cnofilod, bioleg ac ymddygiad cnofilod, a'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â rheoli cnofilod.		1
Rheoli Cwningod a Gwaddod - Technegau trapio		
Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i anelu at unrhyw un sy'n dymuno datblygu ei sgiliau wrth reoli cwningod a gwaddod (neu dyrchod daear) drwy ddefnyddio dulliau ffisegol naill ai'n fasnachol neu fel diddordeb. Bydd yr hyfforddiant yn rhoi'r wybodaeth i allu cynllunio a chyflawni cynllun rheoli cwningod a gwaddod. Bydd yn rhoi gwybodaeth ymarferol lawn ichi o ddulliau atal a dulliau gwella er mwyn ichi gynllunio, gweithredu a monitro rhaglen reoli sy'n briodol i'r sefyllfa benodol, gan ddefnyddio dulliau effeithlon a diogel gan roi sylw dyledus i'r amgylchedd.		1

Rheoli Gwaddod - Technegau trapio	
Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i anelu at unrhyw un sy'n dymuno datblygu ei sgiliau wrth reoli gwaddod (neu dyrchod daear) drwy ddefnyddio dulliau ffisegol naill ai'n fasnachol neu fel diddordeb. Bydd yr hyfforddiant yn rhoi'r wybodaeth i allu cynllunio a chyflawni cynllun rheoli gwaddod.	1
Rheoli Gwiwerod Llwyd	
Mae'r cwrs hwn wedi'i fwriadu i helpu pobl i gynllunio a chyflawni rheolaeth ar wiwerod llwyd. Y bwriad yw rhoi gwybodaeth ymarferol lawn o ddulliau atal a dulliau gwella i'r ymgeiswyr er mwyn iddyn nhw gynllunio, gweithredu a monitro rhaglen reoli sy'n briodol i'w sefyllfa nhw gan ddefnyddio dulliau effeithlon a diogel gan roi sylw dyledus i'r amgylchedd.	1
Rheoli Lloi, Iechyd a Siediau (ar gyfer y sectorau bîff a defaid)	
Nodau'r cwrs yw gwella dealltwriaeth bresennol y rhai sy'n magu lloi o reolaeth, lles, ac ymwybyddiaeth o afiechydon er mwyn gwireddu potensial wrth gynhyrchu lloi o ansawdd uchel ar gyfer y diwydiant bîff a'r diwydiant llaeth.	1
Sgiliau Ymarferol Plygu Gwrychoedd	2
Bydd y cwrs hyfforddi dau ddiwrnod hwn yn rhedeg yn ddelfrydol yn y cyfnod rhwng colli dail (Tachwedd) ac egino (Mawrth). Byddwch yn rhedeg drwy rywfaint o theori ond bydd llawer o ymarfer plygu gwrychoedd a gwaith cynnal-a-chadw.	
Sgorio Symudedd Gwartheg	
Cwrs gydag achrediad RoMS - Nod y cwrs yw darparu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i basio'r arholiad RoMS (Register of Mobility Scorers) a chael ymuno â'u rhestr o ddarparwyr achrededig. Mae aelodaeth o'r gofrestr yn ofynnol ar gyfer unrhyw fferm laeth cyn y gallant ddarparu llaeth ar lefel fasnachol i'r rhan fwyaf o archfarchnadoedd yn y DU. Achrediad Lantra Awards - mae cwrs wedi'i deilwra hefyd ar gael gan rai darparwyr. System sgorio symudedd pedwar gradd (0-3) AHDB yw'r dull a ddefnyddir amlaf i sgorio symudedd yn y DU. Gellir ennill y sgiliau sylfaenol sy'n angenrheidiol er mwyn defnyddio'r dechneg hon o fewn un diwrnod ymarferol dan oruchwyliaeth broffesiynol.	1
Technegau Wyna	
Bydd y cwrs hwn yn helpu i wella'ch technegau wyna. Byddwch yn dysgu pa offer ac amodau sy'n angenrheidiol ar gyfer tymor wyna llwyddiannus.	1
Trimio Traed Gwartheg	
Mae amryw o gyrsiau ar gael, o gwrs trimio traed sylfaenol un diwrnod i gwrs mwy cynhwysfawr ar drimio traed â dull yr Iseldiroedd.	1 - 3 diwrnod
Trimio Traed Gwartheg - sgiliau uwch	
Os ydych chi eisoes wedi cael cyllid i ddilyn cwrs trimio traed un diwrnod, mae gennych yr opsiwn o wneud cais am ragor o gyllid i ddilyn cwrs uwch mewn trimio traed gwartheg i ychwanegu at eich set sgiliau.	3 - 5 diwrnod

Technegol (Cymorthdal o 80%)	Ymwybyddiaeth wrth Weithio'n Uchel ac Asesu'r Risg	
	Gall gweithio ar unrhyw uchder fod yn beryglus. Gan hynny, os ydych chi, neu aelod o'ch tîm yn gweithio ar uchder, mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'r rheoliadau perthnasol a'r gofynion diogelwch ac yn deall y rhain fel bod modd osgoi unrhyw ddamweiniau posibl. Byddwch yn ymwybodol o ddamweiniau sy'n digwydd wrth weithio ar uchder. Cysylltwch ofynion cyffredinol Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 â'ch gweithgareddau gwaith chi'ch hun. Mynnwch well dealltwriaeth o'r rheoliadau a'r canllawiau sy'n ymwneud â gweithio ar uchder.	I

Defnyddio Peiriannau ac Offer (Cymorthdal o 40%)

Categori	Teitl a disgrifiad y cwrs	Hyd y cwrs (yn fras mewn diwrnodau)
Defnyddio Peiriannau ac Offer (Cymorthdal o 40%)	ATV gan gynnwys llwythi ac offer sy'n cael ei lusgo (Eistedd arno)	
	Mae cyfarwyddyd ac ymarfer priodol yn bwysig am fod ATVs yn ymddwyn yn wahanol i gerbydau eraill fel beiciau modur a cheir/tractorau. Mae'r cwrs hwn yn addas i unrhyw un sy'n defnyddio ATV i eistedd arno fel rhan o'i waith.	1 + asesiad
	ATV Llywio Confensiynol (Eistedd i mewn)	
	Mae cyfarwyddyd ac ymarfer priodol yn bwysig am fod ATVs yn ymddwyn yn wahanol i gerbydau eraill fel beiciau modur a cheir/tractorau. Mae'r cwrs hwn yn addas i unrhyw un sy'n defnyddio neu a fydd yn defnyddio ATV eistedd i mewn.	1
	Cwmpo a phrosesu coed dros 380mm	
	Gall cwmpo coed fod yn dasg beryglus. Dyna pam mae'n bwysig sicrhau bod gennych yr hyder, yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i wneud hyn yn ddiogel. Bydd y cwrs hwn yn darparu'r technegau a'r wybodaeth ddiogelwch y mae eu hangen i sicrhau eich bod nid yn unig yn hyderus ond yn ddiogel wrth gwmpo coed dros 380mm.	3
	Cwmpo a phrosesu coed hyd at 380mm	
	Mae'r cwrs wedi'i seilio ar dorri a phrosesu coed hyd at 380mm. Ymdrinnir â gwybodaeth a chymhwysedd i sicrhau bod y dysgwyr yn gallu gweithio'n ddiogel, yn unol ag arferion y diwydiant wrth brosesu a chwmpo coed hyd at 380mm.	3 + asesiad
	Cynnal a chadw llif gadwyn a thrawslifio	
	Cwrs sylfaenol ynghylch y llif gadwyn. Bydd y cwrs yn rhoi'r technegau a'r canllawiau diogelwch priodol er mwyn sicrhau eich bod yn hyderus wrth ddefnyddio llif gadwyn ond hefyd eich bod yn ymwybodol o'r canllawiau iechyd a diogelwch perthnasol, gan sicrhau eich bod yn cadw'n ddiogel.	2 + asesiad
	Cynnal a chadw llif gadwyn, trawslifio, cwmpo a phrosesu coed hyd at 380mm	
	Mae'r cwrs Cynnal a Chadw Llif Gadwyn, Trawslifio, Cwmpo a Phrosesu Coed hyd at 380mm wedi'i gynllunio i gyfuno'r holl hyfforddiant angenrheidiol gan leihau'r amser y byddai'n ei gymryd pe baech yn dilyn pob un o'r cyrsiau ar wahân. Mae'r cwrs wedi'i gyfuno i roi technegau a canllawiau diogelwch i chi er mwyn sicrhau eich bod nid yn unig yn hyderus ond hefyd yn ymwybodol o'r canllawiau iechyd a diogelwch perthnasol gan sicrhau eich bod yn cadw'n ddiogel.	5 + asesiad

Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1)	
PA1 = Mae'r cymhwyster hwn yn bodloni gofynion cyfreithiol y Rheoliadau Rheoli Plaleiddiaid ac yn gadael ichi weithio heb oruchwyliaeth yn y diwydiant. I ennill y cymhwyster byddwch yn dangos eich gwybodaeth o'r Cod Ymarfer a Gymeradwywyd ar Ddefnyddio Cynnyrch Diogelu Planhigion. Mae'n ofynnol ichi gwblhau'r cwrs hwn cyn cwblhau cyrsiau ymarferol ar offer penodol at wasgaru plaladdwyr e.e. offer chwistrellu ar fraich ar gerbyd (PA2) neu offer llaw (PA6) neu belenni gwlithod (PA4).	1 + asesiad cyfrifiadur
Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) a Gwasgaru Plaladdwyr yn Ddiogel / Offer Gwasgaru Gronynnau (PA4)	
PA1 = Gweler y disgrifiad o PA1 uchod. PA4 = Mae'r cymhwyster hwn wedi'i fwriadu'n unswydd ar gyfer y rhai sy'n dymuno defnyddio gwasgarwr pelenni neu wasgarwr gronynnau (ar gyfer malwod) a all gael ei osod ar y cerbyd neu ei lusgo gan y cerbyd fel rhan o'u gwaith bob dydd. Mae'r cwrs yn edrych ar sut i baratoi'ch offer, ei gynnal, ei ddefnyddio'n ddiogel a'i galibro. Mae'r hyfforddiant yn ddelfrydol i ffermwyr a'r sawl sy'n gweithredu chwistrellydd.	2 + asesiad
Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) a Gwasgaru Plaladdwyr yn Ddiogel gan Ddefnyddio Offer Chwistrellu ar Fraich ar Gerbyd (PA2)	
PA1 = Gweler y disgrifiad o PA1 uchod. PA2 = Rhaid i'r ymgeiswyr fod wedi dilyn cwrs hyfforddi ar Ddefnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel a/neu feddu ar Dystysgrif Cymhwysedd NPTC ar gyfer Uned Sylfaen Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1). Mae'r cwrs hwn yn angenrheidiol i bawb sy'n ymwneud â gweithredu a chynnal offer chwistrellau cynydau sydd â ffroenell hydrolog neu atomeiddiwr troi. Mae'r cwrs yn ystyried sut i baratoi'ch offer, ei gynnal a'i ddefnyddio'n ddiogel. (Os hoffech wneud yr elfen Weed Wiper PA2F fel rhan o'r cwrs hwn, holwch y darparwr).	2 + asesiad
Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) a Gwasgaru Plaladdwyr yn Ddiogel gan Ddefnyddio Offer Llaw (PA6)	
PA1 = Gweler y disgrifiad o PA1 uchod. PA6 = Mae'r cymhwyster hwn yn darparu hyfforddiant ar ddefnyddio chwistrell llaw. Mae'n edrych ar sut i baratoi'ch offer, ei gynnal, ei ddefnyddio'n ddiogel a'i galibro.	3 + asesiad
Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel / Offer Gwasgaru Gronynnau (PA4)	
PA4 = Rhaid i'r ymgeiswyr fod wedi dilyn cwrs hyfforddi ar Ddefnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel a/neu feddu ar Dystysgrif Cymhwysedd NPTC ar gyfer Uned Sylfaen Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i fwriadu'n unswydd ar gyfer y rhai sy'n dymuno defnyddio gwasgarwr pelenni neu wasgarwr gronynnau (ar gyfer malwod) a all gael ei osod ar y cerbyd neu ei lusgo gan y cerbyd fel rhan o'u gwaith bob dydd. Mae'r cwrs yn edrych ar sut i baratoi'ch offer, ei gynnal, ei ddefnyddio'n ddiogel a'i galibro. Mae'r hyfforddiant yn ddelfrydol i ffermwyr a'r sawl sy'n gweithredu chwistrellydd.	1 + asesiad

Defnyddio Peiriannau ac Offer (Cymorthdal o 40%)

Dyfarniad Lefel 2 mewn Gwasgaru Plaladdwyr yn Ddiogel gan Ddefnyddio Offer Chwistrellu ar Fraich ar Gerbyd (PA2)	
PA2 = Rhaid i'r ymgeiswyr fod wedi dilyn cwrs hyfforddi ar Ddefnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel a/neu feddu ar Dystysgrif Cymhwysedd NPTC ar gyfer Uned Sylfaen Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1). Mae'r cwrs hwn yn angenrheidiol i bawb sy'n ymwneud â gweithredu a chynnal chwistrellwr cynydau sydd â ffroenell hydrolig neu atomeiddiwr troi. Bydd y cwrs yn edrych ar sut i baratoi'ch offer, ei gynnal a'i ddefnyddio'n ddiogel. (Os hoffech wneud yr elfen Weed Wiper PA2F fel rhan o'r cwrs hwn, yna holwch y darparwr).	1 + asesiad
Dyfarniad Lefel 2 mewn Gwasgaru Plaladdwyr yn Ddiogel gan Ddefnyddio Offer Chwistrellu ar Fraich ar Gerbyd (PA2F) - Weed Wiper	
PA2F = Weed Wiper – i'w osod ar gefn tractor neu ATV. Dyma hawl ychwanegol y gallwch ofyn amdani fel ychwanegiad at PA2.(Bydd arnoch angen tystysgrifau PA1 a PA2 dilys).	1 + asesiad
Dyfarniad Lefel 2 mewn Gwasgaru Plaladdwyr yn Ddiogel gan Ddefnyddio Offer Llaw (PA6)	
PA6 = Rhaid i'r ymgeiswyr fod wedi dilyn cwrs hyfforddi ar Ddefnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel a/neu feddu ar Dystysgrif Cymhwysedd NPTC ar gyfer Uned Sylfaen Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1). Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi hyfforddiant ar ddefnyddio'r chwistrellydd llaw. Mae'r cwrs yn edrych ar sut i baratoi'ch offer, ei gynnal, ei ddefnyddio'n ddiogel a'i galibro. Mae'r hyfforddiant yn ddelfrydol i ffermwyr a'r sawl sy'n gweithredu chwistrellydd.	1 + asesiad
Gyrru Tractor	
Ymdrinnir â gwaith a symudiadau sylfaenol, a hefyd defnyddio atodiadau, ôl-gerbydau a'r siafft pŵer (PTO).	1 - 2 diwrnod
Gyrru Tractor - Llwythwr Tu Blaen	
Bydd y cwrs hwn yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i ddefnyddio llwythwr tu blaen fel atodiad i'r tractor. Argymhellir eich bod eisoes wedi dilyn neu eich bod wrthi ar hyn o bryd yn dilyn yr hyfforddiant perthnasol ynghylch gyrru tractor cyn cymryd y cwrs hwn. Mae'r cwrs wedi'i anelu at yrwyr tractorau sydd â phrofiad cyfyngedig neu ddim profiad o ddefnyddio llwythwr tu blaen.	1 - 2 diwrnod
Gyrru Tractor ac Offer Torri ar Fraich	
Bydd y cwrs hwn yn dysgu sut i ddefnyddio offer torri gwrychoedd wedi'i osod ar fraich ar y tractor yn ddiogel ac yn fedrus.	1 - 2 diwrnod
Gyrru Tractor ar Lethrau	
Mae'r cwrs yn addas i unrhyw yrwyr tractorau sydd neu a fydd yn gorfod gyrru tractor ar lethrau. Bydd yn eich galluogi i ddatblygu ac ehangu lle bo angen ar y sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu'r tractor yn ddiogel ac yn fedrus.	1 - 2 diwrnod

Defnyddio Peiriannau ac Offer (Cymorthdal o 40%)	Torri Coed sydd wedi'u Codi o'r Gwreiddyn neu wedi'u Chwythu gan y Gwynt â Llif Gadwyn	
	Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â'r wybodaeth a'r cymhwysedd y mae eu hangen i dorri coed sydd wedi'u dadwreiddio neu wedi'u chwythu gan y gwynt gan ddefnyddio llif gadwyn. Mae hyn yn cynnwys deall iechyd a diogelwch ac arferion gorau'r diwydiant a gallu hyrwyddo'r rhain, a hefyd deall sut i dorri coed â llif gadwyn a gallu gwneud hynny.	3 + asesiad
	Tryc Codi Telesgopig Tir Garw	
	Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â nodweddion hanfodol tryciau codi a sut i'w cynnal, sut i osgoi peryglon posibl wrth ddefnyddio tryc codi, sut i asesu llwythi a'u symud yn ddiogel, sut i gael y gorau o'ch tryc codi o dan amodau gwahanol a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.	1 - 2 diwrnod